

Atgofion hen heddwlas - Bert Parry

Cyfnod difyr yn fy hanes oedd pan oeddwn Cyn heddwlas yn un o drefi bach Gogledd Cymru yn y pum degau. I fod yn deg, roedd bywyd yn ein trefi bach yn fwy hamddenol a phlwyfol yr adeg hynny ac i bob tref ei chymeriad arbennig ei hun. Dyma'r cyfnod cyn i'r car ddod yn frenin a'r set deledu ddod yn rhan mor hanfodol o'n bywyd beunyddiol. Yn y pum degau y siopau agosaf i fod yn arch farchnadoedd oedd Irwins, y Co-op, neu y Star Supply Stores. Diwrnod mawr bob tre oedd diwrnod y ffair fisol, pan ddeuai y ffermwyr oll i'r dre i werthu eu hanifeiliaid a'u gwagedd i siopa.

Roedd pob heddlu yn y cyfnod yma wedi eu rhannu yn adrannau cymharol fychan gyda is-adrannau llai dan ofal un archwiliwr, rhingyll, gyda rhyw ddeg o ddynion oddi tano, pedwar neu bump yn y dre a'r gweddill wedi eu sefydlu ac yn byw yn y pentrefi cyfagos. I raddau helaeth heddwleision y pentrefi oedd asgwrn cefn yr heddlu. Yn y cyfnod yma nid oedd ceir radio ar gael ond i'r heddlu mwyaf, fel Sir Gaerhirfryn neu rai o'n trefi mawr. Doedd y radio personol ddim wedi ei ddyfeisio eto a rhywbeth i ddod yn y dyfodol oedd yr hofrennydd.

Wedi i'r heddwlas pentrefol adael ei dŷ byddai ar ei ben ei hun ac yn ddibynnol hollol ar gyd-weithrediad ei blwyfolion os oedd angen cymorth arno. Ffrind mawr plisman gwlad oedd ei feic. Ar hwnnw y dibynnai i ymweld â'i ffermydd adeg dipio defaid ac ar achlysuron eraill. Roedd yr amser a gymerai i gyrraedd lleoliad, dyweder damwain ffordd, yn dibynnu ar ba mor gyflym y gallai bedlo'r beic. Os byddai achos gwir ddirifol deuai'r arolygwr allan yn ei gar personol a châi ryw chwech cheiniog y filltir am ei drafferth.

Cofiaf gyngor a gefais gan hen ringyll pan ddechreuais blismona, 'Cofia fod arnat ti angen y cyhoedd yn amlach na fydd dy angen di ar y cyhoedd.' Roedd hyn yn sicr yn wir. Gwn am un plismon gwlad a gymerodd y cyngor yma'n llythrennol. Roedd wedi gwneud enw iddo'i hun fel bwyntawr awchus. Gwyddai'n hollol pryd y byddai teulu un fferm yn cael eu te, ac anelai yno erbyn amser te am y gwyddai y câi ei wadd i ymuno yn y pryd. Un diwrnod cyrhaeddodd y ffermdy amser te fel arfer, a phan gyraeddodd

sylweddolodd nad ef oedd yr unig ymwelydd. Yn eistedd wrth y bwrdd a hanner ffordd drwy ei de yr oedd y gweinidog Wesle a oedd yn fwyntawr mwy awchus na'r plismon. Ychydig iawn o de gafodd y plisman y diwrnod hwnnw, a chlywais na siaradodd air â'r gweinidog ar ôl hynny. Rwy'n sicr nad dyna oedd ym meddwl yr hen ringyll a'i gyngor. I gadw mewn cysylltiad, dibynnem yn gyfangwbl ar y gwasanaeth teliffon. Gwyddai pob heddwlas pwy oedd â theliffon ar ei ffarm. Roedd y wybodaeth yma o werth mawr iddo. Weithiau câi neges frys i rywun oedd yn byw ddwy neu dair milltir o'r pentref. I ddanfôn y neges yn bersonol golygai y byddai o'i bentref am rai oriau. Felly, os y gwyddai fod ffôn gan gymydog agos i dderbynnydd y neges, gofynnai i hwnnw ddod â'i gymydog at y ffôn, a dyna ddanfôn y neges yn ddigon didrafferth.

Weithiau byddech yn ymgymryd â swyddi bychain nad oeddynt yn hollol o fewn cylch plismona. Cofiaf un tro pan alwodd tyddynwr o'r ardal i'm gweld. Roedd yn dra phryderus. Wedi cael ei ddal yn pysgota eogiaid yn anghyfreithlon, ac wedi cael gwŷs i ymddangos yn y llys ynadon yr oedd. Bwriadai bledio'n euog ond gan ei fod ar ganol ei gynhaeaf gwair a'r tywydd braidd yn wael roedd yn broblem iddo ymddangos yn bersonol yn y llys. Awgrymais iddo efallai y derbynai'r ynadon llythyr oddi wrtho ond iddo ddweud yn hollol glir ei fod yn pledio'n euog. Nid oedd o'n fawr o sgolor a darbwylodd fi i ysgrifennu'r llythyr drosto. Gwnes hynny gan gloi'r llythyr drwy ddweud na fu erioed o'r blaen o flaen y llys am unrhyw drosedd a'i fod yn ymwybodol o flotio'i lyfr yn drigain oed. Derbyniwyd y llythyr gan y llys a chafodd ddiryw o dair punt.

Ymhen ychydig ddyddiau roedd ar y ffôn yn gandryll. 'Wyt ti wedi darllen rhifyn yr wythnos nwa o'r papur lleol? 'Naddo,' atebais. 'Gwranda ar hwn,' gwaeddodd ar dop ei lais. 'Local farmer blots his copy book at 60.' Cedwais o'i ffordd am amser wedyn, iddo gael lliniaru dipyn ar ei dymer. Fedrwech chi ddim ennill bob amser.

Byddai'n arferiad ar un Sul o Fai, ar ôl i Faer newydd y flwyddyn ddechrau ar ei



Bert Parry.

waith, i'r maer a'r cyngorwyr ynghyd ag aelodau o'r heddlu, y frigid dân, y gwasanaeth ambiwlans ac eraill i ymdeithio o Neuadd y Dre i'r Eglwys lle y cynhelid gwasanaeth arbennig. Arweinydd yr orymdaith oedd Arolygwr yr heddlu. Y flwyddyn y soniaf amdani, dyn mawr, cyhyrog oedd yr Arolygwr. Dyn oedd â'i darddiad o deulu amaethyddol, a bu yn ei ddyddiau cynnar yn gyrru'r wedd. Rhwng Neuadd y Dre a'r eglwys roedd croesffordd go ddyrys. Fel yr oedd yr orymdaith yn cyrraedd y groesffordd dyma gar allan o'r ffordd ar y dde i ni, yn syth i'n llwybr. Yn ei ffwdan, anghofiodd yr Arolygwr ei holl orchmynion, a'r cyfan a glywem oedd ei lais fel taran yn gweddi 'We!' Ei isymwybod yn ôl ar y ffarm, mae'n debyg. Sut bynnag, llwyddodd i atal yr orymdaith ac arbed beth a allai fod wedi bod yn ddamwain ddirifol.

Cofiaf un prynhawn gael fy ngalw i dŷ tafarn ar gwr y dre lle roedd gwraig weddw a'i merch yn ei chadw. Eu problem oedd fod dyn, a oedd wedi mynd i'r cefn i ddefnyddio'r tŷ bach, wedi syrthio i gysgu yno, ac ni fedrai'r merched ei ddeffro! Wedi cyrraedd yno gwelais mai trempyn oedd y dyn a fyddai'n mynychu'r ardal ac yn ennill ceiniog neu ddwy drwy weithio ychydig ar y ffermydd. Roedd pawb yn ei adnabod ac yn gwybod ei fod yn hollol ddiniwed ond dipyn yn anodd ei drin pan mewn diod. Roedd wedi yfed afon y diwrnod hwnnw, wedi'i faeddu ei hun ac yn dresi i'r cymylau. Roedd yn ddiymadferth ac yr oedd yn amhosibl i mi ei godi o'r tŷ bach, a gwyddwn na chawn fawr o groeso gan yr archwiliwr os awn ag ef i'r ddalfa yn y fath gyflwr. Nid oedd dim i'w wneud, ond mynd i fferm gerllaw i ofyn am fenthyg berfa. A dyna'r ffermwr a minnau yn rhoi yr hen greadur yn y ferfa a'i gludo i dŷ gwair y fferm i gysgu a sobri tipyn. Gwelais ef droeon ar ôl hynny. Doedd o ddim gwaeth ar ôl ei antur. Mae'n rhyfedd fod dyn yn ei stad o yn medru byw dan amgylchiadau a fuasai'n llethol i ddyn cyffredin.

Yn ystod y cyfnod yma cyfarfyddais ag amryw o gymeriadau unigryw a doniol. Un o'r rhain oedd dyn oedd, yn achlysurol, yn gyrru hers i garej yn y dre. Un diwrnod roedd yn mynychu angladd mewn pentref rhyw bedair milltir o'r dre. Wedi'r gwasanaeth, dyma ffermwr oedd yn byw ddwy filltir ymhellach na'r pentref yn gofyn

(Parhad ar dudalen 5)



Gorymdaith y Barnwr ar Sgwâr Rhuthun tua 1953.

(Rhes chwith o'r blaen): PC W. Davies; PC O. M. Edwards; PC J. J. Williams; PC S. Jones; PC R. E. Rowlands; (Rhes dde o'r blaen): PC D. Roberts; PC G. Thomas; PC B. Parry; PC J. Pryce; Arolygwr Supt C. Morris.